



Henebion yng Nghymru

Beth yw Cofrestru?



CADW

WELSH HISTORIC MONUMENTS

Beth yw Cofrestru?

Rhagarweiniad


O dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979, mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio a chadw cofrestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol. Caiff henebion a gynhwysir yn y gofrestr ddiogelwch statudol. Gwneir y gwaith gan Cadw, sydd yn Asiantaeth Weithredol o fewn y Cynulliad.

Mae'r llyfryn hwn yn darparu gwybodaeth am henebion cofrestredig ar gyfer perchnogion tir a deiliaid neu unrhyw un arall a allai fod â diddordeb yn y safleoedd hyn sydd wedi'u diogelu. Ni fwriedir iddo roi cyngor cyfreithiol na dehongliad awdurdodol o'r gyfraith ond i amlinellu rhai o brif ddarpariaethau'r Ddeddf.

Beth yw heneb gofrestredig?

Defnyddir y term heneb ar gyfer amrywiaeth eang iawn o safleoedd archeolegol. Gall rhai enghreifftiau fod wedi eu claddu'n llwyr o dan y ddaear, a chael eu hadnabod drwy gloddio archeolegol yn unig. Mae eraill yn llawer mwy amlwg, ac yn cynnwys adeilidion gwych cestyll ac abatai canoloesol adnabyddus. Mae henebion yn amrywio'n helaeth iawn o ran amser. Yr enghraifft hynaf y gwyddys amdani yw ogof naturiol — yn cynnwys y dystiolaeth gynharaf o ddyn yng Nghymru — ac yn dyddio o chwarter miliwn o flynyddoedd yn ôl. Ym mhen arall y sbectrwm mae olion diwydiannol sydd wedi parhau i gael eu defnyddio yn yr ugeinfed ganrif.

Heddiw, mae dros 3,400 o'r henebion pwysicaf yng Nghymru — y rhai y bernir eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol — wedi eu cynnwys ar gofrestr henebion y Cynulliad. Mae'r safleoedd hyn wedi eu diogelu'n gyfreithlon a chyfeirir atynt fel henebion cofrestredig.



Mae henebion cofrestredig yn amrywio'n eang o ran oedran. Yng Nghastell Dinas Brân, ger Llangollen, ceir castell canoloesol o fewn caer gynharach o'r Oes Haearn. Diogelir y ddau fel henebion cofrestredig ac maent wedi derbyn cymorth grant gan Cadw ar gyfer gwaith cyfnerthu carreg ac adnewyddu'r cloddiau.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng heneb gofrestredig ac adeilad rhestredig?

Yr un ffactor sy'n gyffredin i bob heneb gofrestredig bron yw eu bod yn safleoedd archeolegol, adfeilion neu adeiladau sydd heb fawr o ddefnydd economaidd. Dyma'r gwahaniaeth rhyngddynt ag adeiladau rhestrig. Ni all adeiladwaith gael ei gofrestru fel heneb os yw yn cael ei ddefnyddio naill ai fel cartref neu at ddibenion eglwysig.

Mae rhai adeiladweithiau yn gofrestredig ac yn rhestredig. Mae'r rhan fwyaf yn adeiladau nad oes neb yn byw ynddynt, megis ysguboriau canoloesol neu golomendai, yn ogystal â rhai henebion diwydiannol ac amrywiaeth o bontydd. Mae ambell ardal o orgyffwrdd yn adlewyrchu'r ffaith bod y broses gofrestru wedi rhagflaenu'r ddeddfwriaeth adeiladau rhestredig.

Sut y dewisir safleoedd ar gyfer cofrestru?

Arolygwyr Henebion Cadw sydd yn gyfrifol am nodi pa henebion all gael eu cofrestru; mewn rhai enghreifftiau gallai fod yn addas i rai esiamplau gael eu tynnu oddi ar y gofrestr (datgofrestru), neu efallai y bydd angen i fanylion gael eu hadolygu. Caiff yr Arolygwyr eu harwain wrth nodi safleoedd gan feini prawf anstatudol y Cynulliad ar gyfer cofrestru henebion (gweler Atodiad 1). Caiff safleoedd hefyd eu nodi i'w hystyried gan gyrff eraill megis Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol ranbarthol Cymru, ac archeolegwyr yr awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol. Gall unigolion hefyd dynnu sylw Cadw at safleoedd posibl i gael eu cofrestru.

A oes hawl i apelio yn erbyn cofrestru?

Nid oes hawl statudol i apelio. Yn gyffredinol, caiff perchnogion a deiliad y cyfle i drafod y cofrestru arfaethedig gydag arolygwyr henebion pan fydd yn ymweld â'r safle. Wedi hyn, oni bai nad oes digon o amser, er enghraifft, o achos datblygiad sydd ar y gweddill, bydd Cadw yn ysgrifennu at y perchennog a'r deiliad (os yw'r deiliad yn wahanol i'r perchennog) yn gofyn am eu barn ar y bwriad i gofrestru.

A gaiff hawliau sydd yn bodoli eu heffeithio gan gofrestru?

Nid yw'r ffaith bod safle wedi ei gofrestru yn effeithio ar berchnogaeth y tir. Nid yw cofrestru yn dod ag unrhyw hawliau ychwanegol i fynediad cyhoeddus yn ei sgil, nac unrhyw ddyletswydd ychwanegol i gynnal safle. Nid yw ychwaith yn effeithio ar unrhyw benodiad statudol arall, er enghraifft bod y tir hefyd yn ffurfio rhan o Safle o Ddiddordeb Gwynoddol Arbennig (SSSI).

Pwy gaiff ei hysbysu bod heneb wedi ei chofrestru?

Caiff y perchennog ar deiliad eu hysbysu unwaith y bydd y broses gofrestru wedi cael ei chwblhau. Bydd y wybodaeth gofrestru yn cynnwys disgrifiad o'r safle, ynghyd â map yn dangos ffin yr ardal gofrestredig. Caiff pob cofrestrriad ei ystyried fel pridiant tir lleol a hysbysir y cyrff canlynol hefyd ar adeg cofrestru:

- Yr awdurdod lleol ar parc cenedlaethol perthnasol
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Yr awdurdod glo
- Cwmnïau trydan, dŵr a nwy
- Awdurdod coedwigaeth
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Archeolegol leol yng Nghymru
- Y Cyngor Archeoleg Prydeinig

Mae Cadw o dro i dro yn cyhoeddi rhestrau o henebion cofrestredig a gellir eu harchwilio ym mhrif swyddfeydd awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac yn unrhyw un o'r pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru (gweler Atodiad 3 am gyfeiriadau). Fodd bynnag, gan yr ychwanegir at y gofrestr yn barhaus, y wybodaeth fwyaf cywir a chynhwysfawr fydd yr hyn a gedwir yn nghofnodion cyfredol Cadw. Lleolir y gofrestr ar gronfa ddata henebion cofrestredig Cadw a gellir darparu copiau printiedig o'r gofrestr gyfredol os gwneir cais.



Mae'r colomendy hwn yn Sir Fynwy yn un o'r henebion cofrestredig mwyaf anarferol.



Ymysg yr henebion diwydiannol ar y gofrestr ceir olwynion codi Rhif 2 yng Nglofa Bersham ger Wrecsam. Cadwyd hwn yn ei gyfanrwydd gyda chymorth grant henebion.

Pa weithgareddau a gaiff eu rheoli gan gofrestru?

Nod cofrestru yw sicrhau diogelwch hir dymor safle. Mae'n rhaid i unrhyw gynnydd i wneud gwaith ar heneb gofrestredig a fyddai'n cael yr effaith o ddmchwel, dinistrio, difrodi, tynnu oddi yno, atgyweirio, newid, ychwanegu at, gorlifo neu orchuddio heneb fod yn amodol ar gais ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig. Yn wir, rhaid gwneud cais ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig hefyd ar gyfer gwaith a allai fod o fudd i heneb, megis gwaith cyfnerthu carreg, neu gynnal gwaith cloddio ar gyfer ymchwil.

Mae'n drosedd gwneud gwaith o'r fath ar safle heneb gofrestredig heb gael cydsyniad heneb gofrestredig yn gyntaf.

A gaiff unrhyw weithgareddau eu heithrio o gydsyniad heneb gofrestredig?

O dan delerau Gorchymyn Henebion (Caniatadau Dosbarth) 1994, bernir bod rhai mathau o waith yn derbyn cydsyniad heneb gofrestredig. Disgrifir y mathau hyn o waith yn Atodiad 2. Yn bennaf, maent yn cwmpasu gwaith amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth o'r un math ag sydd wedi cael ei wneud ar yr heneb dros y chwe blynedd blaenorol (gyda rhai eithriadau). Mae mathau eraill o waith yn cynnwys rhai a wneir gan rai sefydliadau mawr, gwaith ar gyfer iechyd a diogelwch, prisiadau archeolegol, a gwaith sydd yn cael cymorth grant gan Cadw. Rhaid darllen Atodiad 2 yn ofalus cyn gwneud unrhyw waith o dan delerau caniatâd dosbarth. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r hyn a all neu'r hyn na all gael ei gwmpasu gan ganiatâd dosbarth, dylid ymgynghori â Cadw cyn i'r gwaith gael ei wneud.

Beth yw'r berthynas rhwng caniatâd heneb gofrestredig a chaniatâd cynllunio?

Bydd yn rhaid i unrhyw berson sy'n dymuno gwneud gwaith ar heneb gofrestredig sydd yn gofyn am ganiatâd cynllunio gael caniatâd cynllunio a chydsyniad heneb gofrestredig. Nid yw caniatâd cynllunio yn unig yn ddigon i awdurdod i'r gwaith.



Mae'n debyg bod Tomen Owain Glyn Dŵr, ger Corwen, yn fwnt â chysylltiadau gyda theulu Glyn Dŵr. Gwnaeth gwaith i'w gadw gyda chymorth grant gan Cadw. Clocwedd o'r uchaf ar y chwith: erydwyd yr wyneb gan ddefaid; atgyfnerthwyd y domen; defnyddiwyd rhwyd ddiogelu i gyfnerthu'r wyneb; ar ôl gwneud gwaith cadw.

Beth yw'r berthynas rhwng cydsyniad heneb gofrestredig a chydsyniad adeilad rhestredig?

Pan fydd adeiladwaith yn gofrestredig ac yn rhestredig, mae'r ddeddfwriaeth henebion yn cymryd blaenoriaeth a chydsyniad heneb gofrestredig yn hytrach na chydsyniad adeilad rhestredig fydd ei angen ar gyfer y gwaith.

Sut y gwneir cais am gydsyniad heneb gofrestredig?

Gweinyddir cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw. Mae'n bwysig nodi mai dim ond ar gyfer cynigion manwl y gellir rhoi cydsyniad. Yn wahanol i ganiatâd cynllunio, nid oes darpariaeth ar gyfer rhoi cydsyniad amlinellol.

Mae Cadw wedi cyhoeddi targed allweddol, i brosesu naw deg y cant o geisiadau ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig o fewn tair wythnos ar ddeg o dderbyn cais digon manwl. Gellir cael gwybodaeth ychwanegol ar sut i wneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig, ynghyd â ffurflenni cais, gan Cadw, yn y cyfeiriad ar flaen y daflen hon.

Pa grantiau sydd ar gael?

Cydnabyddir y gall trwsio a chynnal a chadw heneb gofrestredig fod yn gostus ac nid yw bob amser o fantais ariannol i'r perchennog. Mae Cadw, felly, yn barod i gynorthwyo gyda chymorth grant, neu i ymrwymo i gytundeb rheoli mewn achosion priodol.

Rhoddir grantiau fel arfer tuag at hanner cant y cant o gostau diogelu, cynnal a chadw a rheoli henebion. Ar adegau prin, gellir rhoi grantiau tuag at gost prynu henebion sydd mewn perygl o ddifrod neu ddistryw.

Gall Cadw hefyd ymrwymo i gytundebau rheoli gyda deiliaid henebion (os nad y deiliad yw'r perchennog, bydd Cadw yn ymgynghori â'r perchennog ar wahân). Gellir defnyddio'r fath gytundebau yn aml, i annog rheoli henebion maes ar dir amaethyddol mewn ffordd fuddiol. Maent fel arfer am gyfnod o bum mlynedd, a weithiau rhoddir taliad yn y flwyddyn gyntaf ar gyfer costau cyfalaf y gwaith cychwynnol, megis ffensio. Mae'r cytundebau hyn yw mynnu bod y deiliad yn cynnal rhaglen o waith ar yr heneb dros gyfnod y cytundeb er mwyn ei gynnal mewn cyflwr da.

Gellir cael gwybodaeth bellach ar grantiau a chytundebau rheoli gan Cadw.

Pa ffynonellau o gyngor sydd ar gael?

Mae gan Cadw wyth warden henebion maes wedi eu lleoli'n rhanbarthol sy'n ymweld â'r holl henebion cofrestredig bob pum mlynedd. Bydd y wardeiniaid yn paratoi adroddiad ar gyflwr pob heneb ar gyfer Arolygwyr Henebion Cadw ac maent ar gael i drafod yr heneb gyda'r perchennog tir neu'r deiliad. Gall arolygwyr henebion hefyd roi cyngor ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys rheolaeth arferol o heneb a cheisiadau am gydsyniad henebion cofrestredig a grantiau.

Beth yw'r sefyllfa ynglŷn â gwaith brys?

Os bydd yn ymddangos bod angen gwneud unrhyw waith angenrheidiol ar frys er mwyn diogelu heneb gofrestredig, gall Cadw — ar ran y Cynulliad — fynd i safle'r heneb a gwneud y gwaith hwn. Mae'n rhaid hysbysu'r perchnogion/deiliaid yn ysgrifenedig o leiaf saith niwrnod ymlaen llaw. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y defnyddir y pŵer hwn pan fydd heneb mewn perygl a'i bod yn debygol o gael ei cholli os na wneir y gwaith.

A all datgelyddion metel gael eu defnyddio ar henebion cofrestredig?

Gall datgelu metel yn anghyfreithlon achosi difrod difrifol i henebion, nid yn unig i ffabrig yr heneb, ond hefyd i'r modd y caiff ei dehongli a'i deall wedi i wrthrychau gael eu tynnu o'u cyd-destun archeolegol. Mae'n drosedd defnyddio datgelyddion metel ar heneb gofrestredig heb gydsyniad blaenorol gan y Cynulliad a dylid gwneud cais ysgrifenedig iddo.

Beth yw'r sefyllfa ynglŷn â henebion nad ydynt yn gofrestredig?

Ar hyn o bryd, canran fechan yn unig o gyfanswm henebion Cymru sy'n gofrestredig. Dros y blynyddoedd nesaf, mae Cadw yn disgwyl cynyddu'r nifer hwn ond bydd y mwyafrif o henebion yn parhau heb eu cofrestru. Mae'r Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd pob heneb, yn gofrestredig a heb eu cofrestru. Mae gwybodaeth a chyngor ar ddiogelu a rheoli safleoedd heb eu cofrestru ar gael gan yr Ymddiriedolaeth Archeolegol ranbarthol yng Nghymru, rhai awdurdodau lleol sy'n cyflogi staff archeolegol, neu — os yw'r safle o fewn parc cenedlaethol — gan archeolegwyr y parc cenedlaethol (gweler Atodiad 3 ar gyfer cyfeiriadau).

Atodiad 1

Meini prawf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer cofrestru henebion

1. Cyfnod

Dylai pob math o heneb sy'n nodweddu categori neu gyfnod gael ei hystyried ar gyfer diogelu.

2. Heneb brin

Mae rhai categorïau o henebion sydd mewn rhai cyfnodau mor brin fel y dylai'r holl enghreifftiau sydd wedi goroesi ac sydd â rhywfaint o botensial archeolegol o hyd gael eu diogelu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, dylid dewis detholiad sy'n portreadu'r nodweddiadol a'r cyffredin yn ogystal â'r prin. Dylai'r broses hon ystyried holl agweddau dosbarthiad dosbarth arbennig o heneb, o ran cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol.

3. Dogfennaeth

Gall arwyddocâd heneb cael ei hyrwyddo gan fodolaeth cofnodion archwiliadau blaenorol neu, yn achos henebion diweddarach, gan dystiolaeth ategol o gofnodion ysgrifenedig cyfoes.

4. Gwerth grŵp

Gall gwerth heneb unigol (megis system cae) gael ei hyrwyddo'n fawr gan ei pherthynas â henebion cyfoes perthnasol (megis anheddiad a mynwent) neu â henebion o wahanol gyfnodau. Mewn rhai achosion, mae'n well diogelu'r grŵp cyfan o henebion, gan gynnwys tir cysylltiol a chyfagos, yn hytrach na diogelu henebion unigol o fewn y grŵp.

5. Goroesiad/cyflwr

Mae goroesiad potensial archeolegol heneb uwchben ac o dan y ddaear yn ystyriaeth arbennig o bwysig a dylai gael ei hasesu mewn perthynas â'i chyflwr presennol a'r nodweddion sydd wedi goroesi.

6. Cyflwr bregus

Gall tystiolaeth archeolegol o bwysigrwydd mawr o rai henebion maes gael ei dinistrio gan un cyfnod o aredig neu driniaeth heb gydymdeimlad. Byddai henebion diamddiffyn o'r math hwn yn elwa'n arbennig o'r diogelwch statudol y mae cofrestru yn ei roi. Mae hefyd adeiladweithiau sy'n bodoli o ffurf neu gymhlethdod arbennig y gall eu gwerth gael ei leihau'n sylweddol drwy esgeulustod neu driniaeth ddiofal ac a fyddai yr un mor addas i gael diogelwch heneb gofrestredig hyd yn oed os yw'r adeiladweithiau hyn eisoes yn adeiladau hanesyddol rhestredig.

7. Amrywiaeth

Gellir dewis rhai henebion ar gyfer cofrestru am eu bod yn cynnwys cyfuniad o nodweddion safonol, rhai eraill oherwydd un nodwedd bwysig.

8. Potensial

Ar adegau, ni ellir nodi natur y dystiolaeth yn fanwl, ond gall fod yn bosibl dogfennu rhesymau yn rhagweld ei fodolaeth a'i bwysigrwydd ac felly dangos y cyfiawnhad dros gofrestru. Mae hyn fel arfer wedi ei gyfyngu i safleoedd yn hytrach na henebion sy'n sefyll.

Atodiad 2

Gorchymyn Henebion (Caniatadau Dosbarth) 1994 (SI 1994 Rhif 1381)

Dosbarth 1:

Gwaith amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth

Gwaith a Ganiateir

Gwaith amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth o'r un math â'r rhai a wnaed eisoes yn gyfreithlon yn yr un lleoliad ac yn yr un man o fewn y lleoliad hwnnw o fewn cyfnod o chwe blynedd yn union cyn y dyddiad y mae'r gwaith yn cychwyn; ond heb gynnwys gwaith sy'n syrthio i un neu fwy o'r categorïau canlynol:

Gwaith Na Chaniateir

- a) Yn achos tir wedi ei aredig, unrhyw waith sy'n debygol o darfu ar bridd unrhyw ran o'r tir hwnnw islaw'r dyfnder y mae'r aredig ar y rhan honno wedi ei weithredu'n gyfreithlon cyn hynny.
- b) Yn achos tir heblaw tir wedi ei aredig, unrhyw waith sy'n debygol o darfu ar y pridd islaw dyfnder o 300 milimetr.
- c) Is-briddio, gwaith draenio, plannu neu ddiwreiddio coed, llwyni neu brysgwydd, tynnu uwchbridd, gweithrediadau tipio, neu dorri a thynnu tywyrch yn fasnachol.
- d) Dymchwel, tynnu oddi yno, ehangu, newid neu darfu ar unrhyw adeilad, adeiladwaith neu waith neu weddillion ohono.
- e) Codi unrhyw adeilad neu adeiladwaith.
- f) Yn achos gwaith heblaw gwaith garddio domestig, gosod llwybrau, ardal galed neu seiliau ar gyfer adeiladau neu godi ffensys neu rwystrau eraill.

Dosbarth 2:

Gwaith gan Gorfforaeth Glo Prydain neu eu drwyddedigion

Gwaith a Ganiateir

Gwaith a wneir dros 10 metr islaw lefel y ddaear gan Gorfforaeth Glo Prydain, neu unrhyw berson yn gweithredu yn ôl trwydded a roddwyd gan y Gorfforaeth o dan adran 36(2) Deddf Gwladolir Diwydiant Glo 1946.

Dosbarth 3:

Gwaith gan Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain

Gwaith a Ganiateir

Gwaith a wneir gan Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain, mewn perthynas â thir sy'n eiddo iddynt neu y maent yn ddeiliaid arno, yn waith atgyweirio neu gynnal a chadw, heb gynnwys newid materol i heneb gofrestredig, sy'n hanfodol at ddibenion sicrhau bod camlas yn gweithio.

Dosbarth 4:

Gwaith er mwyn atgyweirio neu gynnal a chadw peirianwaith

Gwaith a Ganiateir

Gwaith er mwyn atgyweirio neu gynnal a chadw peirianwaith, yn waith nad yw'n cynnwys newid materol i heneb gofrestredig.

Dosbarth 5:

Gwaith sy'n angenrheidiol ar frys oherwydd diogelwch neu iechyd

Gwaith a Ganiateir

Gwaith sy'n angenrheidiol ar frys er budd diogelwch neu iechyd ar yr amod bod:

- a) Y gwaith yn gyfyngedig i'r isafswm mesurau sydd eu hangen ar unwaith.
- b) Hysbysiad ysgrifenedig yn cyfiawnhau yn fanwl yr angen i wneud y gwaith yn cael ei roi i'r Cynulliad gynted â bod hynny yn rhesymol ymarferol.

Dosbarth 6:

Gwaith gan Gomisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion Lleogr

Ddim yn berthnasol yng Nghymru.

Dosbarth 7:

Gwaith o werthuso archeolegol

Gwaith a Ganiateir

Gwaith o werthuso archeolegol a wneir gan, neu ar ran, person sydd wedi gwneud cais am gydsyniad o dan adran 2 y Ddeddf, yn waith a wneir:

- a) Er mwyn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Cynulliad i benderfynu ar y cais hwnnw.
- b) O dan oruchwyliaeth person wedi ei gymeradwyo i'r pwrpas hwnnw yn ysgrifenedig gan y Cynulliad neu'r Comisiwn.
- c) Yn unol â manyleb ysgrifenedig wedi ei chymeradwyo i'r diben hwnnw gan y Cynulliad neu'r Comisiwn.

Dosbarth 8:

Gwaith a wneir o dan gytundebau arbennig ynglŷn â henebion

Gwaith a Ganiateir

Gwaith ar gyfer cynnal a chadw neu ddiogelu heneb gofrestredig neu ei amwynderau yn waith a wneir yn unol â thelerau cytundeb ysgrifenedig rhwng deiliad yr heneb ar Cynulliad neu'r Comisiwn o dan adran 17 y Ddeddf.

Dosbarth 9:

Gwaith yn derbyn cymorth grant o dan Adran 24 y Ddeddf

Gwaith a Ganiateir

Gwaith ar gyfer diogelu, cynnal a chadw neu reoli heneb gofrestredig, yn waith a wneir yn unol â thelerau cytundeb ysgrifenedig y mae'r Cynulliad neu'r Comisiwn yn talu am gost y gwaith neu'n cyfrannu tuag ato, yn unol â'u pŵerau o dan adran 24 y Ddeddf.

Dosbarth 10:

Gwaith yr ymgymerir ag ef gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Lloegr neu Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Gwaith a Ganiateir

Gwaith yn cynnwys gosod marcwyr arolwg i ddyfnder heb fod yn fwy na 300 millimetr ar gyfer tîrfesur olion gweladwy yr ymgymerir ag ef gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Lloegr neu Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Atodiad 3

Cyfeiriadau sefydliadau eraill gyda'r arbenigedd archeolegol priodol

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

(gan gynnwys y Cofnod Henebion Cenedlaethol),
Adeilad y Goron, Plas Crug, Aberystwyth, SY23 1NJ
(01970) 621200

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys

7a Stryd yr Eglwys, Y Trallwng, SY21 7DL
(01938) 553670

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed

Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, SA19 6AF
(01558) 823121

Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent

Heathfield House, Heathfield Road, Abertawe, SA1 6EL
(01792) 655208

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd

Ffordd y Garth, Bangor, LL57 2RT
(01248) 352535

Swyddfa Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

7 Stryd Morgannwg, Aberhonddu, LD3 7DP
(01874) 624437

Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Winch Lane, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1PY
(01437) 764636

Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri

Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3YU
(01766) 590324

Gwasanaeth Archeoleg Wrecsam

Amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol, Adeiladau'r Sir, Stryd Regent,
Wrecsam, LL11 1RB
(01978) 317979

Cyngor Sir Dinbych

Yr Hen Garchar, 46 Clwyd Street, Sir Ddinbych, LL15 1HP
(01824) 708262

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Yr Adran Gynllunio, Canolfan Ymgynghori Busnes, Ystad Ddiwydiannol
Rassau, Glynabwy NP3 6XB
(01495) 350555



Mae'r cylch ymylfaen o'r Oes Efydd yn Moel Tŷ Uchaf, Llandrillo, Sir Ddinbych, yn enghraifft wych o'r safleoedd cynhanesyddol niferus a gaiff eu cynnwys ar y Gofrestr.



CADW

WELSH HISTORIC MONUMENTS

Mae Cadw: Welsh Historic Monuments yn gweithredu cyfrifoldebau statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer diogelu, cadw, a hyrwyddo henebion ac adeiladau hanesyddol yng Nghymru.

© Cadw: Welsh Historic Monuments

Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn 029 2050 0200 Ffacs 029 2082 6375

Cadw@Wales.GSI.Gov.UK <http://www.cadw.wales.gov.uk>

Cyhoeddwyd am y tro cyntaf 2002 ISBN 1 85760 119 X